

# Dangosyddion Anafiadau ar gyfer Cymru:

## Ymgynghoriad a Dangosyddion Cytûn

Ronan A Lyons, Jane Lyons, Samantha Turner

System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan, Prifysgol Abertawe

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gyfres o ddangosyddion anafiadau ar gyfer Cymru gan staff System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod hydref 2017.

Mae Atodiad A yn cynnwys y rhesymeg dros y dangosyddion arfaethedig a anfonwyd at bawb a fu'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad (Atodiad B). Derbyniwyd ugain ymateb i'r ymgynghoriad gan Fyrddau Iechyd, staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, academyddion, sefydliadau'r trydydd sector ac arbenigwyr ym maes atal anafiadau o ystod eang o gefndiroedd.

Mynegwyd cymysgedd o safbwyntiau yn yr ymgynghoriad, a oedd yn cefnogi'r dangosyddion arfaethedig i raddau helaeth. Fodd bynnag, gwnaed nifer o awgrymiadau, yn cynnwys:

- Eithrio dangosydd gweithle, oherwydd arfer gwael o gofnodi data am anafiadau yn y gweithle yn Set Ddata Adrannau Brys (EDDS). Bydd hyn yn destun archwiliad pellach wrth i gyflawnder data wella.
- Cydnabuwyd bod y dangosyddion plant ar gyfer yr ystodau oedran 0-7 a 0-4 oed yn gorgyffwrdd. Fodd bynnag, penderfynwyd cadw'r ddau oherwydd eu bod yn cyd-fynd â gwahanol strategaethau Llywodraeth Cymru.
- Argymhellwyd dau ddangosydd gwenwyno: roedd un yn canolbwytio ar bob grŵp oedran a'r llall ar unigolion 0-24 oed
- Argymhellwyd y dylid ymestyn y dangosydd hunan-niweidio arfaethedig i 10-24 oed.
- Ni chefnogwyd cynnig i gynnwys dangosydd sy'n gysylltiedig â boddi oherwydd y niferoedd bach.
- Ni chafodd cynnig am ddangosydd trais partner agos ei gynnwys oherwydd nid yw'r ffynonellau data sydd ar gael ar draws Cymru gyfan yn cofnodi gwybodaeth yn ddibynadwy am yr ymosodwr ar hyn o bryd. Bydd hyn yn destun archwiliad pellach wrth i gyflawnder data wella.

Yn dilyn cyfarfod rhwng yr Athro Ronan Lyons a Dr Ciaran Humphreys, cytunwyd ar y rhestr derfynol o ddangosyddion (a restrir yn **Nhabl 1**), gan gynnwys pedwar dangosydd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd sydd yn gysylltiedig ag anafiadau (torri clun, pob marwolaeth o ganlyniad i anafiadau, marwolaethau o ddamweiniau traffig ffyrdd a marwolaethau o ganlyniad i hunanladdiad). Cytunwyd y byddai pob un o'r dangosyddion yn cael eu cyflwyno fel cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl blwyddyn, oedran, rhyw, Bwrdd Iechyd, Awdurdod Lleol ac amddifadedd lefel ardal. Byddai dangosyddion yn cael eu diweddarau'n flynyddol a'u darparu i'r cyhoedd drwy offer ar-lein ar wefan System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan a thrwy adroddiad blynyddol cryno.

**Tabl 1: Rhestr o'r dangosyddion anafiadau cytuûn ar gyfer Cymru yn dilyn yr ymgynghoriad.**

<b>Mater Troswaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
<b>Anafiadau pob achos</b> (anafiadau o ganlyniad i bob achos, pob gweithgaredd, ym mhob lleoliad a phob grŵp oedran)	Marwolaethau o ganlyniad i anafiadau pob achos	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	Set Ddata Marwolaethau y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran cyffredinol a rhyw, Bwrdd Iechyd (BI), Awdurdod Lleol (ALI) ac amddifadedd lefel ardal	Ar gyfartaledd, mae anafiadau yn arwain at 1,116 o farwolaethau yng Nghymru bob blwyddyn. Dyma yw prif achos marwolaeth ymhlith pobl ifanc, gyda 55% o bob marwolaeth yn deillio o anaf yn y grŵp oedran 18-24. Mae mwyafrif yr anafiadau yn rhai y gellir eu hatal.	1) Mesur Iechyd a Llesiant Cenedl 2) Targedau a dangosyddion iechyd Sefydliad Iechyd y Byd 2020
	Derbyniadau mewn adrannau brys ysbytai o ganlyniad i anafiadau pob achos	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW)	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Ar gyfartaledd, mae anafiadau yn arwain at 39,934 o dderbyniadau mewn ysbytai yng Nghymru bob blwyddyn. Gellir defnyddio derbyniadau mewn ysbytai fel dangosydd procsi o nifer yr achosion o anafiadau difrifol.	
	Derbyniadau mewn adrannau brys mewn cysylltiad ag anafiadau pob achos	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	Set Ddata Adrannau Brys (EDDS) Cymru	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Ar gyfartaledd, mae anafiadau yn arwain at 322,533 o bobl yn mynychu adrannau brys yng Nghymru bob blwyddyn. Defnyddir presenoldeb mewn Adrannau Brys fel procsi o bob anaf lle mynychwyd darpariaeth feddygol o'i herwydd.	
	Blynyddoedd Bywyd wedi eu Haddasu oherwydd Anabledd o ganlyniad i anafiadau pob achos	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	ONS, PEDW ac EDDS	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Mae DALYS yn fetrig sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ar gyfer mesur y blynyddoedd o fywyd iach a gollwyd oherwydd anaf.	

Mater Troswaol yr Anaf	Dangosydd Penodol	Mesur	Ffynhonnell y Data	Fformat Cyflwyno	Cyfiawnhad Byr	Targedau/dangosyddion perthnasol
<b>Cwmpo ymysg yr Henoed (65+)</b>	Derbyniadau brys i'r ysbyty oherwydd cwmpo ymhlith pobl 65+ oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, oedran a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	<p>Ar gyfartaledd, mae cwmpo yn arwain at 9,755 o dderbyniadau i'r ysbytai ymysg oedolion 65+oed yng Nghymru bob blwyddyn.</p> <p>Mae'r risg o dderbyniadau sy'n gysylltiedig â chwmpo yn cynyddu yn y grŵp oedran 65+ oed, ac mae ar ei uchaf yn y grŵp oedran 85+ oed.</p> <p>Mae tystiolaeth yn bodoli ar gyfer nifer o ymyriadau ataliol effeithiol.</p> <p>Bydd yr achosion mwyaf difrifol o gwmpo sydd yn digwydd i'r henoed yn arwain at dderbyniad i'r ysbyty. Rydym wedi dewis cyflwyno derbyniadau i'r ysbytai yn unig, oherwydd mae data sy'n gysylltiedig â marwolaethau oherwydd cwmpo a derbyniadau i adrannau brys yn llai dibynadwy. Mae gwaith yn parhau i wella'r dull o godio cwmpo mewn system cofnodion electronig sy'n cael ei chyflwyno mewn Adrannau Brys ar draws Cymru.</p>	<p>Mae atal cwmpo yn un o'r pedair thema sy'n cael eu cefnogi gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru <a href="http://www.ageingwellinwales.com/wl/themes/falls-prevention">http://www.ageingwellinwales.com/wl/themes/falls-prevention</a></p> <p>Mae hefyd yn cael ei gefnogi gan Gofal a Thrwsio Cymru</p>
	Marwolaethau oherwydd anafiadau o ganlyniad i	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	ONS	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, oedran a rhyw, BI,	Mae oedolion ifanc yn cael eu nodi mewn nifer o adroddiadau/dadansoddiadau fel y grŵp oedran â'r risg	<p>1) Adroddiad Cyflwr Iechyd Plant (grŵp oedran 17-19)</p> <p>2) Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (grŵp oedran 16-24)</p>

<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
<b>Anafiadau Traffig Ffyrdd (RTI) ymysg oedolion ifanc 17-24 oed</b>	Anafiadau Traffig Ffyrdd ymysg pobl ifanc 17-24 oed			ALI ac amddifadedd lefel ardal	uchaf o Anafiadau Traffig Ffyrdd.  Mae tystiolaeth yn bodoli ar gyfer nifer o ymyriadau ataliol effeithiol.	3) Nodwyd fel grŵp oedran risg uchel yn adroddiad 'Asesiad o Anghenion Anafiadau Plant' ar gyfer Cymru (grŵp oedran 17-24)
	Derbyniadau brys i'r ysbyty o ganlyniad i Anafiadau Traffig Ffyrdd yn y grŵp oedran 17-24 oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, oedran a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Nodir oedolion ifanc mewn nifer o adroddiadau/dadansoddiadau fel y grŵp oedran sy'n wynebu'r risg uchaf o Anafiadau Traffig Ffyrdd.  Mae tystiolaeth yn bodoli ar gyfer nifer o ymyriadau ataliol effeithiol.	1) Adroddiad Cyflwr Iechyd Plant (grŵp oedran 17-19)  2) Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (grŵp oedran 16-24)  3) Nodwyd fel grŵp oedran risg uchel yn adroddiad 'Asesiad o Anghenion Anafiadau Plant' ar gyfer Cymru (grŵp oedran 17-24)
<b>Anafiadau i gerddwyr a beicwyr ymysg plant 0-16 oed</b>	Derbyniadau brys i'r ysbyty o ganlyniad i anafiadau i gerddwyr a beicwyr yn y grŵp oedran 0-16 oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Mae cerddwyr sy'n blant yn wynebu risg uwch o anaf o gymharu ag unrhyw grŵp oedran arall.  Mae nifer o ymyriadau ataliol ar waith ar hyd a lled Cymru.	
<b>Anafiadau anfwriadol yn y cartref ymysg plant 0-7 oed</b>	Derbyniadau brys i adrannau brys o ganlyniad i anafiadau anfwriadol yn y grŵp oedran 0-7 oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth. Hefyd yn unol â 'Fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar' Llywodraeth Cymru - % o'r derbyniadau i adrannau brys yn y	EDDS	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, oedran a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Mae anafiadau anfwriadol yn y cartref yn y grŵp oedran 0-7 oed yn ddangosydd iechyd poblogaeth yn 'Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar' Llywodraeth Cymru	Dangosydd yn 'Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar' Llywodraeth Cymru

<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
		grŵp oedran 0-7 oed o ganlyniad i anafiadau anfwriadol yn y cartref				
<b>Llosgiadau a sgaldiau ymysg plant 0-4 oed</b>	Mynychu Uned Llosgiadau Cymru oherwydd llosgiadau a sgaldiau yn y grŵp oedran 0-4 oed	Cronfa ddata Canolfan Llosgiadau a Llawdriniaeth Blastig Cymru	Cronfa Ddata Uned Llosgiadau Cymru	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, rhyw ac amddifadedd lefel ardal	Ar gyfartaledd, mae llosgiadau a sgaldiau yn arwain at 184 o achosion o fynychu Uned Llosgiadau Cymru ymhlith plant 0-4 oed yng Nghymru bob blwyddyn.  Gall llosgiadau arwain at anafiadau difrifol a gall y driniaeth fod yn gostus iawn.  Nodwyd plant yn y grŵp oedran 0-4 fel grŵp sy'n wynebu risg uchel yn nadansoddiadau System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan	
<b>Plant a phobl ifanc sy'n hunan-niweidio (10-24 oed)</b>	Marwolaethau yn sgil anafiadau o ganlyniad i hunan-niweidio ymysg pobl ifanc 10-24 oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	ONS	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Mae hunanladdiad yn cael effaith niweidiol aruthrol ar les meddwl a chorfforol aelodau o deulu a ffrindiau'r dioddefwr. Y grŵp oedran 15-19 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o hunanladdiad yng Nghymru.	1) Adroddiad Cyflwr Iechyd Plant (grŵp oedran 15-19)  2) Nodwyd fel grŵp oedran risg uchel yn adroddiad 'Asesiad o Anghenion Anafiadau Plant' ar gyfer Cymru (grŵp oedran 17-24)
	Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i bobl ifanc 10-24 oed yn hunan-niweidio	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Y grŵp oedran 15-19 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o hunan-niweidio yng Nghymru.	1) Adroddiad Cyflwr Iechyd Plant (grŵp oedran 15-19)  2) Nodwyd fel grŵp oedran risg uchel yn adroddiad 'Asesiad o Anghenion Anafiadau Plant' ar gyfer Cymru (grŵp oedran 17-24)

<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
<b>Gwenwyno ym mhob grŵp oedran a 0 – 24 oed</b>	Derbyniadau i Adrannau Brys o ganlyniad i wenwyno ymysg plant a phobl ifanc 0-24 oed a phob oedran	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	EDDS	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Gwenwyno yw trydydd prif achos marwolaethau o ganlyniad i anaf anfwriadol yn Rhanbarth Ewropeaidd WHO. Bob blwyddyn, mae 3,000 o blant ifanc 0 i 14 oed yn marw o ganlyniad i wenwyno aciwt. Fe argymhellodd nifer o'r rhanddeiliaid y dylid cynnwys hyn; mae'r nifer uchaf o achosion o wenwyno yn y grŵp oedran 10-24 oed gyda thua 7 o dderbyniadau yn y grŵp oedran ar draws Cymru gyfan.	Mae Cynghair Diogelwch Plant Ewrop wedi cynhyrchu taflen ffeithiau am wenwyno mewn plentyndod sy'n argymhell "y dylai canolfannau gwenwyn yn Ewrop safoni a chysylltu eu data ar anafiadau gwenwyno er mwyn sicrhau bod ystadegau diweddar ar gael a'u bod yn fanwl"
	Derbyniadau mewn ysbytai o ganlyniad i wenwyno ymhlith plant a phobl ifanc 0-24 oed a phob oedran	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Gwenwyno yw trydydd prif achos marwolaethau o ganlyniad i anaf anfwriadol yn Rhanbarth Ewropeaidd WHO. Bob blwyddyn, mae 3,000 o blant ifanc 0 i 14 oed yn marw o ganlyniad i wenwyno aciwt. Fe argymhellodd nifer o'r rhanddeiliaid y dylid cynnwys hyn; mae'r nifer uchaf o achosion o wenwyno yn y grŵp oedran 10-24 oed gyda thua 7 o dderbyniadau yn y grŵp oedran ar draws Cymru gyfan.	Mae Cynghair Diogelwch Plant Ewrop wedi cynhyrchu taflen ffeithiau am wenwyno mewn plentyndod sy'n argymhell "y dylai canolfannau gwenwyn yn Ewrop safoni a chysylltu eu data ar anafiadau gwenwyno er mwyn sicrhau bod ystadegau diweddar ar gael a'u bod yn fanwl"
<b>Ymosodiadau ym mhob grŵp oedran</b>	Derbyniadau i ysbytai o ganlyniad i ymosodiadau ym mhob grŵp oedran	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw,	Mae dynladdiad ac anafiadau sy'n gysylltiedig â thrais yn cael effaith aruthrol ar lesiant meddyliol a chorfforol aelodau o deulu a ffrindiau'r	Targed 16.1 yn yr 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (SDG) yn Agenda'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 2030: Lleihau yn sylweddol pob math o drais a marwolaethau cysylltiedig ym mhob man

<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
				BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	dioddefwr.	
<b>Anafiadau yn y cartref a hamdden ym mhob grŵp oedran (Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd 29b)</b>	Derbyniadau i Adrannau Brys ac ysbytai o ganlyniad i anafiadau yn y cartref a hamdden ym mhob grŵp oedran  (DULL TYNNU: Pob anaf minws Anafiadau Traffig Ffyrdd, Hunan-Niweidio ac Ymosodiadau)	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	EDDS. Mae data cymharol ar gael ar gyfer nifer o wledydd o Set Ddata Ofynnol Sylfaen Data Anafiadau Ewropeaidd (IDB)	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Yn 2014, digwyddodd 316,790 o anafiadau yn y cartref neu yn ystod hamdden, a oedd yn golygu mynychu Adran Brys a 31302 o anafiadau a ddigwyddodd yn y cartref neu yn ystod hamdden a arweiniodd at dderbyniadau i'r ysbyty.  Mae'r dangosydd hwn wedi ei gynnwys yn y Dangosyddion Iechyd Craidd Ewropeaidd.  Defnyddir data o'r Sylfaen Data Anafiadau Ewropeaidd er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau ar draws Ewrop.	Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd
<b>Anafiadau traffig ar y ffyrdd ym mhob grŵp oedran (Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd 30b)</b>	Derbyniadau i adrannau Brys ac ysbytai o ganlyniad i ddamweiniau traffig ym mhob grŵp oedran	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth	EDDS. Mae data cymharol ar gael ar gyfer nifer o wledydd o Set Ddata Ofynnol Sylfaen Data Anafiadau Ewropeaidd	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Yn 2014, fe achosodd 8006 o anafiadau traffig ffyrdd bresenoldeb mewn adran frys a 2746 o anafiadau traffig ar y ffyrdd a arweiniodd at dderbyniadau i'r ysbyty.  Mae'r dangosydd hwn wedi ei gynnwys yn Nangosyddion Iechyd Craidd y Comisiwn Ewropeaidd.  Defnyddir data o'r Sylfaen	Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd

<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
					Data Anafiadau Ewropeaidd er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau ar draws Ewrop.	
<b>PHOF: Achosion o dorri clun ymhlith pobl hŷn</b>	Derbyniadau brys i'r ysbyty ymysg pobl 65 oed ac yn hŷn pan fydd cyfnod derbyn yn cynnwys diagnosis sylfaenol o dorri clun.	Cyfradd Ewropeaidd wedi ei safoni yn ôl oed fesul 100,000 o'r boblogaeth	Amcangyfrifon poblogaeth PEDW a chanol blwyddyn, ar gyfer y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Defnyddir gan arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd ar draws y DU	
<b>PHOF: Marwolaethau sy'n gysylltiedig ag anafiadau</b>	Nifer y marwolaethau lle mae achos sylfaenol marwolaeth yn anaf	Cyfradd Ewropeaidd wedi ei safoni yn ôl oed fesul 100,000 o'r boblogaeth	Marwolaethau Iechyd y Cyhoedd, amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chanol blwyddyn	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Defnyddir gan arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd ar draws y DU	
<b>PHOF: Marwolaethau Anafiadau Traffig ar y Ffyrdd</b>	Marwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau trafndiaeth neu o ôl-effeithiau damweiniau trafndiaeth	Cyfradd Ewropeaidd wedi ei safoni yn ôl oed fesul 100,000 o'r boblogaeth	Marwolaethau Iechyd y Cyhoedd (PHM), amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chanol blwyddyn	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Defnyddir gan arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd ar draws y DU	
<b>PHOF: Hunanladdiad</b>	Marwolaethau o achosion o hunan-niweidio bwriadol 10+ oed ac o	Cyfradd Ewropeaidd wedi ei safoni yn ôl oed fesul 100,000 o'r	Marwolaethau Iechyd y Cyhoedd (PHM),	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5	Defnyddir gan arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd ar draws y DU	



<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
	hunan-anafu anfwriadol neu anaf/gwenwyno o fwriad amhenodol 15+ oed	boblogaeth	amcangyfrifon poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chanol blwyddyn	mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal		

## Atodiad A

# **Dangosyddion Anafiadau Arfaethedig ar gyfer Cymru**

Diben y ddogfen hon yw ymgynghori gyda sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn atal anafiadau neu gylch gorchwyl yn ymwneud â hyn, wrth ddatblygu a chynhyrchu set graidd o ddangosyddion anafiadau ar gyfer Cymru. Darperir rhestr o'r ymgynghoreion yn yr atodiad. Mae dangosyddion iechyd y boblogaeth, sydd wedi eu crynhoi nogfen y GIG a Chymdeithas Arsyllfeydd Iechyd y Cyhoedd 'Y Canllaw Dangosyddion Da: Deall sut i ddefnyddio a dewis dangosyddion'[1] fel a ganlyn:

- Mesurau cryno sy'n ceisio disgrifio cymaint â phosibl am system mewn cyn lleied o bwyntiau â phosibl
- Mesurau sy'n ein helpu i ddeall system, ei chymharu a'i gwella

### **Sut cafodd y dangosyddion eu dewis?**

#### **Meini Prawf Dethol**

Defnyddiwyd y meini prawf dethol a nodir yn adroddiadau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd i Gymru[2] a Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar [3] wrth ddewis ein dangosyddion anafiadau arfaethedig. Dim ond pedwar dangosydd anafiadau sydd wedi eu cynnwys yn Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd, sydd wedi eu cyfyngu i un ar gyfer morbidrwydd (torri clun) a thri ar gyfer marwolaethau (anafiadau cyffredinol; traffig ar y ffyrdd a hunanladdiad). Nid yw'r rhain yn ddigonol ar gyfer monitro a chefnogi ymdrechion ataliol. Mae ein dangosyddion ychwanegol yn seiliedig ar ystyriaeth o nifer o ffactorau:

- Canlyniadau sy'n bwysig i iechyd a llesiant pobl Cymru
- Cyd-fynd â Pholisi Llywodraeth Cymru
- Bod yn agored i ymyriadau gan gyrff cyhoeddus a chyrrff eraill fydd yn arwain at iechyd a llesiant gwell ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Yn gyfyngedig o ran nifer er mwyn gallu eu rheoli
- Ffurio set gydlynus, wedi ei chyfiawnhau gan resymeg a sylfeini tystiolaeth
- Gallu cael eu crynhoi'n fyr mewn ffordd fydd yn ddealladwy i bawb
- Pan fo'n bosibl, gallu dangos amrywiaeth pwysig rhwng meysydd a chanfod newidiadau dros amser
- Gallu eu cynhyrchu mewn ffordd amserol
- Pan fo'n bosibl, gallu eu cymharu â mesurau tebyg a ddefnyddir y tu allan i Gymru
- Bod yn briodol yn ystadegol
- Defnyddio systemau casglu data presennol, pan fo'n bosibl.

## Meysydd Blaenoriaeth Allweddol yng Nghymru

Gofynnwyd i System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan (AWISS) yn Sefydliad Farr ym Mhrifysgol Abertawe, lunio rhestr o ddangosyddion anafiadau allweddol, er mwyn gwella gwyliadwriaeth anafiadau a chefnogi rhaglenni a pholisïau atal anafiadau ar hyd a lled Cymru. [4]

Y cam cyntaf yn y broses ddethol oedd nodi materion anafiadau allweddol yng Nghymru.

Anafiadau yw un o brif achosion marwolaethau cyn pryd, morbidrwydd ac anabledau ar draws y byd, sy'n cyfrannu at 8% o'r Blynyddoedd Bywyd wedi eu Haddasu oherwydd Anabled yn yr Astudiaeth Baich Byd-eang Clefydau [5], fodd bynnag mae'r ffigur hwn yn debygol o danamcangyfrif baich anafiadau oherwydd absenoldeb pwysau anabled hirdymor ar gyfer nifer o wahanol fathau o ddiagnosis.

Yng Nghymru, anafiadau yw achos pennaf marwolaethau rhwng 1 a 45 oed. Mae 10% o bobl yn cael eu derbyn i Adrannau Brys gydag anaf bob blwyddyn (cyfartaledd 2009-2014) [6]. Defnyddiwyd 274,388 o welyau ysbytai i drin anafiadau yng Nghymru yn 2014.

Mae tystiolaeth gynyddol nad yw llawer o bobl yn gwella'n llwyr yn dilyn anaf ac oherwydd nifer yr anafiadau, mae'n gyfrannwr sylweddol at anabledau cyhyrsgerbydol [7, 8] anhwylder straen wedi trawma, cyflyrau iechyd meddwl eraill, a mathau eraill o ymddygiad ymdopi sy'n cynyddu'r risg o ddatblygu anhwylderau corfforol cronig yn gynharach yn gymharol gyffredin yn dilyn anaf [9]

Datgelodd Astudiaeth Baich Anafiadau Cymru 2012 bod tua 50,000 o flynyddoedd iechyd bywyd yn cael eu colli o ganlyniad i anafiadau, gyda'r gost i gymdeithas yn cael ei amcangyfrif ar £1.52B, gan ddefnyddio trothwyon safonol y GIG i werthuso effeithiolrwydd cost triniaethau newydd.

Yn dilyn trafodaethau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ystod eang o ddangosyddion posibl, gostyngwyd y nifer i'r rhai a restrir isod.

Roedd y broses o ddewis y materion trosfwaol hyn yn seiliedig i raddau helaeth ar faterion a nodwyd yn adroddiadau'r llywodraeth/adroddiadau rhyngwladol, grwpiau risg uchel o anafiadau yng Nghymru, mathau o anafiadau sy'n cyfrannu at y baich cyffredinol mwyaf ar iechyd yng Nghymru, a mathau o anafiadau lle mae ymyriadau ataliol effeithiol wedi'u harddangos. Nodwyd deg mater allweddol:

1. Pob math o anafiadau
2. Cwmpo ymysg yr henoed (65+)
3. Anafiadau traffig ar y ffyrdd ymysg oedolion ifanc (17-24 oed)
4. Anafiadau i blant 0-16 oed sydd yn cerdded neu'n beicio
5. Anafiadau yn y cartref i blant 0-7 oed
6. Sgaldiau a llosgiadau ymysg plant 0-4 oed
7. Hunan-niweidio ymysg plant ac oedolion ifanc (15-19 oed)
8. Ymosodiadau ym mhob grŵp oedran
9. Anafiadau cartref a hamdden ym mhob grŵp oedran (Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd 29b)
10. Anafiadau traffig ar y ffyrdd ym mhob grŵp oedran (Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd 30b)

Yna defnyddiwyd y meini prawf dethol i gynnig dangosyddion penodol ar gyfer y materion trosfwaol hyn.

### **Pwy fydd yn cynhyrchu'r ffigurau dangosol?**

Bydd y ffigurau dangosol yn cael eu cynhyrchu gan System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan yn Sefydliad Ymchwil Gwybodaeth Iechyd Farr ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan hefyd yn cynhyrchu adroddiad methodoleg sydd yn nodi'r meini prawf dethol a'r meta-data ar gyfer pob dangosydd.

### **Sut bydd y dangosyddion yn cael eu mesur?**

Bydd y mwyafrif o'r dangosyddion anafiadau yn cael eu hadrodd fel cyfradd achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth; fel cyfraddau bras a Chyfraddau Oed Safonol Ewropeaidd. Bydd anafiadau ymysg plant 0-7 oed yn y cartref yn cael eu hadrodd hefyd fel cyfran o'r rhai sy'n cael eu derbyn i Adrannau Brys, oherwydd mae'r dangosydd canlyniad hwn yn cael ei grybwyll yn benodol yn 'Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar' Llywodraeth Cymru [3].

### **Ym mha fformat y cyflwynir y dangosyddion?**

Pan fo'n bosibl, cyflwynir dangosyddion yn ôl blwyddyn (er mwyn monitro tueddiadau), grŵp oedran a rhyw (er mwyn monitro grwpiau risg uchel), Bwrdd Iechyd (BI), Awdurdod Lleol (ALI – er mwyn nodi meysydd risg uchel) a lefel amddifadedd ardaloedd (er mwyn monitro anghydraddoldeb).

### **Pa ffynonellau data a ddefnyddir?**

Defnyddir systemau casglu data presennol sydd yn hygyrch i dîm System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan, gan gynnwys: data am farwolaethau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), data am gleifion mewnol ysbytai, data mynychu adrannau brys, data presenoldeb o uned Canolfan Llosgiadau Cymru a'r Sylfaen Ddata Anafiadau Ewropeaidd (IDB). Yr IDB yw'r sylfaen ddata safonol Ewropeaidd sydd yn seiliedig ar achosion o fynychu Adrannau Brys sydd yn gysylltiedig ag anafiadau, sydd yn caniatáu i nifer yr achosion o anafiadau gael eu cymharu mewn gwledydd ar draws Ewrop. Mae'r IDB yn cynnwys dwy set ddata; y Set Ddata Ofynnol (IDB-MDS) a'r Set Ddata Lawn (IDB-FDS),

### **Pa mor aml bydd y ffigurau dangosol yn cael eu diweddarau?**

Bydd y dangosydd cychwynnol yn cael ei ddiweddarau ar sail flynyddol i ddechrau, gyda'r potensial yn y dyfodol i'w ddiweddarau ar sail bob 6 mis/chwarterol.

### **Lle gallaf gael mynediad at y ffigurau dangosol?**

Bydd offer rhyngweithiol yn cael ei ddatblygu ar-lein, a fydd yn galluogi defnyddwyr i ddewis eu dangosydd o ddiddordeb a fformat cyflwyno (e.e. gwybodaeth raffigol a chanlyniadau ar ffurf tablau yn ôl blwyddyn, oedran a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal). Drwy'r offer ar-lein bydd yn bosibl lawrlwytho'r siart a'r canlyniadau tabl o ddiddordeb, yn ogystal â'r daenlen sydd yn cynnwys canlyniadau llawn o'r cyfraddau ar gyfer pob dangosydd a math o gyflwyniad.

## Dangosyddion Anafiadau Arfaethedig

Mater Trosfwaol yr Anaf	Dangosydd Penodol	Mesur	Ffynhonnell y Data	Fformat Cyflwyno	Cyfiawnhad Byr	Targedau/dangosyddion perthnasol
<b>Anafiadau pob achos</b> (anafiadau o ganlyniad i bob achos, pob gweithgaredd, ym mhob lleoliad a phob grŵp oedran)	Marwolaethau o ganlyniad i anafiadau pob achos	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (y Gyfradd Fras a'r Gyfradd Oed Safonol Ewropeaidd (EASR))	Set Ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran cyffredinol a rhyw, Bwrdd Iechyd (BI), Awdurdod Lleol (ALI) ac amddifadedd lefel ardal	Ar gyfartaledd, mae anafiadau yn arwain at 1,116 o farwolaethau yng Nghymru bob blwyddyn. Dyma yw prif achos marwolaeth ymhlith pobl ifanc, gyda 55% o bob marwolaeth yn deillio o anaf yn y grŵp oedran 18-24. Mae mwyafrif yr anafiadau yn rhai y gellir eu hatal.	1) Mesur Iechyd a Llesiant Cenedl 2) Targedau a dangosyddion iechyd WHO 2020
	Derbyniadau i adrannau brys ysbytai o ganlyniad i anafiadau pob achos	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW) – set ddata genedlaethol	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Ar gyfartaledd, mae anafiadau yn arwain at 39,934 o dderbyniadau i'r ysbyty yng Nghymru bob blwyddyn. Gellir defnyddio derbyniadau i'r ysbyty fel dangosydd procsi o nifer yr achosion o anafiadau difrifol.	
	Derbyniadau i adrannau brys mewn cysylltiad ag anafiadau pob achos	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	Set Ddata Adrannau Brys (EDDS) Cymru – set ddata genedlaethol	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Ar gyfartaledd, mae anafiadau yn arwain at 322,533 o bobl yn mynychu adrannau brys yng Nghymru bob blwyddyn. Defnyddir presenoldeb mewn Adrannau Brys fel procsi o bob anaf lle mynychwyd darpariaeth feddygol o'i herwydd.	
	Blynyddoedd Bywyd wedi eu Haddasu oherwydd Anabledd o ganlyniad i anafiadau pob achos	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	ONS, PEDW ac EDDS	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Mae DALYS yn fetrig sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol ar gyfer mesur y blynyddoedd o fywyd iach a gollwyd oherwydd anaf.	

Mater Troswaol yr Anaf	Dangosydd Penodol	Mesur	Ffynhonnell y Data	Fformat Cyflwyno	Cyfiawnhad Byr	Targedau/dangosyddion perthnasol
<b>Cwmpo ymysg yr Henoed (65+)</b>	Derbyniadau brys i'r ysbyty oherwydd cwmpo ymysg pobl 65+ oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, oedran a rhyw (65-84, 85+), BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	<p>Ar gyfartaledd, mae cwmpo yn arwain at 9,755 o dderbyniadau i'r ysbytai ymysg oedolion 65+ yng Nghymru bob blwyddyn.</p> <p>Mae'r risg o dderbyniadau sy'n gysylltiedig â chwmpo yn cynyddu yn y grŵp oedran 65+ oed, ac mae ar ei uchaf yn y grŵp oedran 85+ oed.</p> <p>Mae tystiolaeth yn bodoli ar gyfer nifer o ymyriadau ataliol effeithiol.</p> <p>Bydd yr achosion mwyaf difrifol o gwmpo sy'n digwydd i'r henoed yn arwain at dderbyniadau i'r ysbyty. Rydym wedi dewis cyflwyno derbyniadau i'r ysbyty yn unig, oherwydd mae data sy'n gysylltiedig â marwolaethau oherwydd cwmpo a phresenoldeb mewn adrannau brys yn llai dibynadwy. Mae gwaith yn parhau i wella'r dull o godio cwmpo mewn system cofnodion electronig sy'n cael ei chyflwyno mewn Adrannau Brys ar draws Cymru.</p>	Mae atal cwmpo yn un o'r pedair thema sy'n cael eu cefnogi gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru <a href="http://www.ageingwellinwales.com/wl/themes/falls-prevention">http://www.ageingwellinwales.com/wl/themes/falls-prevention</a>
	Marwolaethau oherwydd anafiadau o ganlyniad i	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras	ONS	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, oedran a rhyw (17-	Mae oedolion ifanc yn cael eu nodi mewn nifer o adroddiadau/dadansoddiadau fel y grŵp oedran â'r risg	1) Adroddiad Cyflwr Iechyd Plant (grŵp oedran 17-19) 2) Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (grŵp oedran 16-24)

<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
<b>Anafiadau Traffig ar y Ffyrdd (RTI) ymysg oedolion ifanc 17-24 oed</b>	Anafiadau Traffig ar y Ffyrdd ymysg pobl ifanc 17-24 oed	ac EASR)		19, 20-24), BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	uchaf o Anafiadau Traffig ar y Ffyrdd.  Mae tystiolaeth yn bodoli ar gyfer nifer o ymyriadau ataliol effeithiol.	3) Nodwyd fel grŵp oedran risg uchel yn adroddiad 'Asesiad o Anghenion Anafiadau Plant' ar gyfer Cymru (grŵp oedran 17-24)
	Derbyniadau brys i'r ysbyty o ganlyniad i Anafiadau Traffig ar y Ffyrdd yn y grŵp oedran 17-24	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, oedran a rhyw (17-19, 20-24), BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Nodir oedolion ifanc mewn nifer o adroddiadau/dadansoddiadau fel y grŵp oedran sy'n wynebu'r risg uchaf o Anafiadau Traffig ar y Ffyrdd.  Mae tystiolaeth yn bodoli ar gyfer nifer o ymyriadau ataliol effeithiol.	1) Adroddiad Cyflwr Iechyd Plant (grŵp oedran 17-19)  2) Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru (grŵp oedran 16-24)  3) Nodwyd fel grŵp oedran risg uchel yn adroddiad 'Asesiad o Anghenion Anafiadau Plant' ar gyfer Cymru (grŵp oedran 17-24)
<b>Anafiadau i gerddwyr a beicwyr ymysg plant 0-16 oed</b>	Derbyniadau brys i'r ysbyty o ganlyniad i anafiadau i gerddwyr a beicwyr yn y grŵp oedran 0-16 oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw (0-4, 5-11, 12-16), BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Mae cerddwyr sy'n blant yn wynebu risg uwch o anaf o gymharu ag unrhyw grŵp oedran arall.  Mae nifer o ymyriadau ataliol ar waith ar hyd a lled Cymru.	
<b>Anafiadau anfwriadol yn y cartref ymysg plant 0-7 oed</b>	Derbyniadau brys i adrannau brys o ganlyniad i anafiadau anfwriadol yn y grŵp oedran 0-7 oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR). Hefyd yn unol â 'Fframwaith canlyniadau'r blynyddoedd cynnar' Llywodraeth Cymru - % o'r derbyniadau i adrannau brys yn y	Set Ddata Adrannau Brys i Gymru (EDDS) – set ddata genedlaethol	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw (0-4, 5-7), BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Mae anafiadau anfwriadol yn y cartref yn y grŵp oedran 0-7 oed yn ddangosydd iechyd y boblogaeth yn 'Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar' Llywodraeth Cymru	Dangosydd yn 'Fframwaith Canlyniadau'r Blynyddoedd Cynnar' Llywodraeth Cymru



<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
		grŵp oedran 0-7 oed o ganlyniad i anafiadau anfwriadol yn y cartref				
<b>Llosgiadau a sgaldiau ymysg plant 0-4 oed</b>	Mynychu Uned Llosgiadau Cymru oherwydd llosgiadau a sgaldiau yn y grŵp oedran 0-4 oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	Cronfa Ddata Canolfan Llosgiadau a Llawdriniaeth Blastig Cymru	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, rhyw ac amddifadedd lefel ardal	Ar gyfartaledd, mae llosgiadau a sgaldiau yn arwain at 184 o achosion o fynychu Uned Llosgiadau Cymru ymhlith plant 0-4 oed yng Nghymru bob blwyddyn.  Gall llosgiadau arwain at anafiadau difrifol a gall y driniaeth fod yn gostus iawn.  Nodwyd plant yn y grŵp oedran 0-4 oed fel grŵp sy'n wynebu risg uchel yn nadansoddiadau System Arolygu Anafiadau Cymru Gyfan	
<b>Plant a phobl ifanc sy'n hunan-niweidio (10-24 oed)</b>	Marwolaethau yn sgil anafiadau o ganlyniad i hunan-niweidio ymhlith pobl ifanc 10-24 oed	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	ONS	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Mae hunanladdiad yn cael effaith niweidiol aruthrol ar les meddwl a chorfforol aelodau o deulu a ffrindiau'r dioddefwr. Y grŵp oedran 15-19 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o hunanladdiad yng Nghymru.	1) Adroddiad Cyflwr Iechyd Plant (grŵp oedran 15-19)  2) Nodwyd fel grŵp oedran risg uchel yn adroddiad 'Asesiad o Anghenion Anafiadau Plant' ar gyfer Cymru (grŵp oedran 17-24)
	Derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i bobl ifanc 10-24 oed yn hunan-niweidio	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	PEDW	Graffiau sy'n cyflwyno blwyddyn a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Y grŵp oedran 15-19 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf o hunan-niweidio yng Nghymru.	1) Adroddiad Cyflwr Iechyd Plant (grŵp oedran 15-19)  2) Nodwyd fel grŵp oedran risg uchel yn adroddiad 'Asesiad o Anghenion Anafiadau Plant' ar gyfer Cymru (grŵp oedran 17-24 oed)
<b>Ymosodiadau</b>	Derbyniadau i'r	Cyfradd yr	PEDW	Graffiau sy'n	Mae dynladdiad ac anafiadau	Targed 16.1 yn yr 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (SDG) yn

<b>Mater Trosfwaol yr Anaf</b>	<b>Dangosydd Penodol</b>	<b>Mesur</b>	<b>Ffynhonnell y Data</b>	<b>Fformat Cyflwyno</b>	<b>Cyfiawnhad Byr</b>	<b>Targedau/dangosyddion perthnasol</b>
<b>ym mhob grŵp oedran</b>	ysbyty o ganlyniad i ymosodiadau ym mhob grŵp oedran	achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)		cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	sy'n gysylltiedig â thrais yn cael effaith aruthrol ar les meddwl a chorfforol aelodau o deulu a ffrindiau'r dioddefwr.	Agenda'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 2030: Lleihau yn sylweddol pob math o drais a marwolaethau cysylltiedig ym mhob man
<b>Anafiadau yn y cartref a hamdden ym mhob grŵp oedran (Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd 29b)</b>	Derbyniadau i Adrannau Brys ac ysbytai o ganlyniad i anafiadau yn y cartref a hamdden ym mhob grŵp oedran  (DULL TYNNU: Pob anaf minws Anafiadau Traffig ar y Ffyrdd, Hunan-Niweidio ac Ymosodiadau)	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	Set Ddata Adrannau Brys (EDDS) – ar gyfer Cymru set ddata genedlaethol a Set Ddata Ofynnol Data Sylfaen Anafiadau Ewropeaidd (IDB)	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Yn 2014, digwyddodd 316,790 o anafiadau yn y cartref neu yn ystod hamdden, a oedd yn golygu mynychu Adran Brys a 31302 o anafiadau a ddigwyddodd yn y cartref neu yn ystod hamdden a arweiniodd at dderbyniad mewn ysbyty.  Mae'r dangosydd hwn wedi ei gynnwys yn y Dangosyddion Iechyd Craidd Ewropeaidd.  Defnyddir data o'r Sylfaen Data Anafiadau Ewropeaidd er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau ar draws Ewrop.	Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd
<b>Anafiadau traffig ar y ffyrdd ym mhob grŵp oedran (Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd 30b)</b>	Derbyniadau i Adrannau Brys ac ysbytai o ganlyniad i ddamweiniau traffig ym mhob grŵp oedran	Cyfradd yr achosion fesul 100,000 o'r boblogaeth (Bras ac EASR)	Set Ddata Adrannau Brys (EDDS) – ar gyfer Cymru set ddata genedlaethol a Set Ddata Ofynnol Data Sylfaen Anafiadau	Graffiau sy'n cyflwyno cyfraddau yn ôl: blwyddyn, grŵp oedran 5 mlynedd a rhyw, BI, ALI ac amddifadedd lefel ardal	Yn 2014, fe achosodd 8006 o anafiadau traffig ar y ffyrdd dderbyniadau i adrannau brys a 2746 o anafiadau traffig ar y ffyrdd a arweiniodd at dderbyn i'r ysbyty.  Mae'r dangosydd hwn wedi ei gynnwys yn Nangosyddion	Dangosydd Iechyd Craidd Ewropeaidd

Mater Troswaol yr Anaf	Dangosydd Penodol	Mesur	Ffynhonnell y Data	Fformat Cyflwyno	Cyfiawnhad Byr	Targedau/dangosyddion perthnasol
			Ewropeaidd (IDB)		Iechyd Craidd y Comisiwn Ewropeaidd.  Defnyddir data o'r Sylfaen Data Anafiadau Ewropeaidd er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau ar draws Ewrop.	

## Cyfeiriadau

- 1 Pencheon D. The Good Indicators Guide : Understanding how to use and choose indicators. Sefydliad Arloesedd a Gwelliannau'r GIG; Coventry: 2007. <http://www.apho.org.uk/resource/view.aspx?RID=44584>
- 2 Mesur iechyd a llesiant cenedl Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd Cymru. Iechyd Cyhoeddus Cymru: 2016. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/mesur-iechyd-a-llesiant-cenedl.pdf>
- 3 Fframwaith Canlyniadau'r Blynnyddoedd Cynnar. Llywodraeth Cymru: 2015. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/deilliannau-r-blynnyddoedd-cynnar-fframwaith.pdf> (defnyddiwyd 26 Ebr 2016).
- 4 Lyons RA, Turner S, Lyons J, Walters A, Snooks HA, Greenacre J, Humphreys C, Jones SJ. All Wales Injury Surveillance System revised: development of a population based system to evaluate single and multi-level interventions. Inj Prev 2015;0:1-6. Cyhoeddwyd Gyntaf Ar-lein: [09/12/15] doi:10.1136/injuryprev-2015-041814 <http://injuryprevention.bmj.com/content/early/2015/12/09/injuryprev-2015-041814.full>
- 5 UK health performance: findings of the Global Burden of Disease Study 2010. The Lancet 2013; 381:997-1020. [http://dx.doi.org/10.1016/S0140-6736\(13\)60355-4](http://dx.doi.org/10.1016/S0140-6736(13)60355-4)
- 6 Atal Anafiadau i Blant yng Nghymru: Adroddiad Asesiad o Anghenion. Prifysgol Abertawe 2016.
- 7 Gabbe BJ, et al. Association between the number of injuries sustained and 12-month disability outcomes: evidence from the INJURY-VIBES study. PLoS ONE 9(12): e113467. doi:10.1371/
- 8 Gabbe BJ, et al. Long-term health status and trajectories of seriously injured patients: a population based longitudinal study. PloS Med 2017 (i'w gyhoeddi 5<sup>ed</sup> Gorffennaf).

9. Lyons RA, Finch CF, McClure R, van Beeck E, Macey S. The Injury LOAD Framework- conceptualising the full range of deficits and adverse outcomes following injury and violence. *Int J Inj Contr Saf Promot.* 2010;17(3):145-159. DOI: 10.1080/17457300903453104.  
<http://www.tandfonline.com/doi/abs/10.1080/17457300903453104>

## **Diolchiadau**

Dymuna'r awduron ddiolch i Iechyd Cyhoeddus Cymru a ariannodd yr adroddiad hwn fel rhan o'i gefnogaeth barhaus i atal anafiadau. Safbwyntiau'r awduron yn unig sydd yn yr adroddiad hwn ac ni ddylid tybio mai dyma safbwyntiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Atodiad B

### **Ymgylgoreion y Dangosyddion Anafiadau**

#### **Tîm Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Aidan Fowler - Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG

Chrissie Pickin – Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant

Huw George – Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid

Mark Bellis – Cyfarwyddwr Polisi Ymchwil a Datblygu

Phil Bushby – Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol

Quentin Sandifer – Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr Meddygol

Rhiannon Beaumont-Wood - Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Tracey Cooper – Prif Weithredwr

#### **Byrddau Iechyd yng Nghymru – Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd**

Catherine Woodward (Bwrdd Iechyd Addysgu Powys)

Fiona Kinghorn (BIP Caerdydd a'r Fro – Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Kelechi Nnoaham (BILL Cwm Taf – Cyfarwyddiaeth Weithredol)

Ros Jervis (BIP Hywel Dda – Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd )

Sandra Husbands (Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol ABM – Iechyd Cyhoeddus Cymru – Diogelu Iechyd)

Sarah Aitken (BIP Aneurin Bevan – Iechyd Cyhoeddus Cymru)

Teresa Owen (BIPBC – Swyddfa Gorfforaethol)

#### **Llywodraeth Cymru**

Dr Heather Payne

Ms Janette Cooper

Mr Roger Perks

Ms Catherine Bridges

Mr Irfon Rees

Ms Lynne Regan

Mr Stephan Wall

**Sefydliadau ac unigolion â diddordeb penodol mewn rheoli anafiadau**

Ms Julie Barrett, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd

Ms Catriona Williams, Plant yng Nghymru

Ms Karen McFarlane, Plant yng Nghymru

Ms Katrina Phillips, Ymddiriedolaeth Atal Anafiadau Plant

Mr Errol Taylor, Cymdeithas Frenhinol Lleihau Anafiadau

Mr Ian Thomas, Age Concern Cymru

Dr Antony Johansen, Arweinydd Cronfa Ddata Genedlaethol Torri Cluniau, Coleg Brenhinol y Meddygon

Yr Athro Ann John, Prifysgol Abertawe (hunan-niwed/hunanladdiad)

Yr Athro Tom Potokar, Canolfan Llosgiadau a Llawdriniaeth Blastig (llosgiadau/sgaldiau)

Dr Sarah Jones, Iechyd Cyhoeddus Cymru (anafiadau/anafiadau traffig ar y ffyrdd)

Yr Athro Simon Moore (Prifysgol Caerdydd) (trais)